# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 28
05/10/20

## Concro Jericho

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Jacqueline Ashworth,
Hannah Ashworth, Anna Krabbenhöft, Greg Leavers a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org




# Stori

*Ar ôl croesi afon yr Iorddonen, roedd yr Israeliaid bellach yn wynebu dinas Jericho. Roedd angen iddyn nhw goncro'r ddinas er mwyn gallu symud ymlaen drwy’r wlad roedd Duw wedi ei haddo iddyn nhw.*

## Fersiwn Beibl.net

Roedd giatiau Jericho wedi'u cau'n dynn am fod ganddyn nhw ofn pobl Israel. Doedd neb yn cael mynd i mewn nac allan o'r ddinas. A dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Josua, “Dw i'n mynd i roi dinas Jericho i ti. Byddi di'n concro ei brenin a'i byddin! Dw i eisiau i dy fyddin di fartsio o gwmpas Jericho un waith bob dydd am chwe diwrnod. Mae saith offeiriad i gerdded o flaen yr Arch, pob un ohonyn nhw yn cario corn hwrdd. Yna ar y seithfed diwrnod rhaid martsio o gwmpas y ddinas saith gwaith, gyda'r offeiriaid yn chwythu'r cyrn hwrdd. Wedyn pan fydd yr offeiriaid yn seinio un nodyn hir ar y cyrn hwrdd, rhaid i'r fyddin i gyd weiddi'n uchel. Bydd waliau'r ddinas yn syrthio, a bydd y fyddin yn gallu ymosod, a'r dynion i gyd yn gallu mynd yn syth i mewn i'r ddinas.”



Felly dyma Josua fab Nwn yn galw'r offeiriaid ato a dweud wrthyn nhw, “Codwch Arch yr Ymrwymiad, a rhoi saith offeiriad i fynd o'i blaen, pob un ohonyn nhw yn cario corn hwrdd.” A dyma fe'n dweud wrth y milwyr, “Ymlaen! Martsiwch o gwmpas y ddinas, gyda grŵp o ddynion arfog yn mynd o flaen Arch yr ARGLWYDD.” Ar ôl i Josua ddweud hyn, dyma'r saith offeiriad yn dechrau symud, pob un yn chwythu ei gorn hwrdd wrth fynd. A dyma Arch Ymrwymiad yr ARGLWYDD yn dilyn. Roedd gwarchodlu o filwyr yn martsio o flaen a'r tu ôl i'r offeiriaid oedd yn chwythu'r cyrn hwrdd. Ond roedd Josua wedi dweud wrth y milwyr, “Peidiwch gweiddi o gwbl. Cadwch yn hollol dawel nes i mi ddweud wrthoch chi am weiddi – wedyn cewch weiddi nerth eich pen!”

Felly dyma Josua yn gwneud iddyn nhw fynd ag Arch yr ARGLWYDD o gwmpas y ddinas un waith, cyn mynd yn ôl i'r gwersyll ac aros yno dros nos. Yn gynnar y bore wedyn dyma Josua yn codi, a chael yr offeiriaid i fynd allan eto, yn cario Arch yr Ymrwymiad. A dyma'r saith offeiriad yn mynd allan o flaen Arch yr ARGLWYDD, pob un yn chwythu ei gorn hwrdd. Roedd gwarchodlu o filwyr yn martsio o flaen a'r tu ôl i'r offeiriaid oedd yn chwythu'r cyrn hwrdd. Dyma nhw'n martsio o gwmpas y ddinas unwaith eto, ar yr ail ddiwrnod, ac yna'n mynd yn ôl i'r gwersyll. A dyma nhw'n gwneud yr un peth am chwe diwrnod.


Yna ar y seithfed diwrnod dyma nhw'n codi gyda'r wawr, i fartsio o gwmpas y ddinas fel o'r blaen – ond y tro yma dyma nhw'n mynd o'i chwmpas hi saith gwaith. Y seithfed gwaith rownd, dyma'r offeiriaid yn chwythu un nodyn hir, a dyma Josua yn dweud wrth y bobl, “Gwaeddwch! Mae'r ARGLWYDD wedi rhoi'r ddinas i chi! Mae'r ddinas, a phawb a phopeth sydd ynddi, i gael ei dinistrio'n llwyr, fel offrwm i'r ARGLWYDD. Dim ond Rahab a'r rhai sydd gyda hi yn ei thŷ sydd i gael byw, am ei bod hi wedi cuddio'r ysbiwyr wnaethon ni eu hanfon. A gwyliwch nad ydych chi'n cymryd unrhyw beth sydd i fod i gael ei ddinistrio. Os gwnewch chi hynny, byddwch chi'n rhoi pobl Israel mewn perygl, ac yn achosi dinistr ofnadwy. Yr ARGLWYDD sydd biau popeth wedi'i wneud o arian neu aur, pres neu haearn. Mae'r pethau hynny i gyd i'w cadw yn stordy'r ARGLWYDD.”

Pan glywodd y bobl y corn hwrdd yn seinio, dyma nhw'n gweiddi'n uchel. Syrthiodd wal y ddinas, a dyma'r milwyr yn mynd yn syth i mewn iddi ac yn ei choncro.

*Josua 6:1-20 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Dywedodd Duw wrth Josua ei fod am roi Jericho iddo, felly dyma Josua a’r Israeliaid yn cerdded o gwmpas y ddinas. Caewyd giatiau’r ddinas a’u cloi. Dywedodd Josua wrth yr offeiriaid a’r milwyr i gerdded o gwmpas waliau’r ddinas unwaith bob dydd am chwe diwrnod heb ganu eu hutgyrn. Nid oedd y Brenin a’i bobl yn gwybod beth oedd yn digwydd. Ar y seithfed diwrnod, dywedodd Josua wrthynt i gerdded o gwmpas y waliau saith gwaith ac ar y seithfed tro roedd yr offeiriaid i ganu eu hutgyrn a’r milwyr i weiddi nerth eu pennau. Wrth i’r utgyrn ganu a’r milwyr weiddi, dechreuodd waliau’r ddinas grynu a disgyn i’r llawr. Cipiwyd yr Israeliaid y ddinas a chafodd Rahab a’i theulu eu hachub oherwydd roedd hi wedi rhoi’r cortyn coch yn ffenest ei chartref fel arwydd i’r Israeliaid beidio ag ymosod arni hi a’i sylwys. Roess Rahab ymddiried yn Nuw.



# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:


1. Wyt ti’n dda am ddilyn cyfarwyddiadau – fel pan rwyt ti’n adeiladu rywbeth allan o Lego?
2. Pa gyfarwyddiadau roddodd Duw i Josua a’r bobl er mwyn concro Jericho?
3. Sut wyt ti’n meddwl oedd y bobl yn teimlo am y cyfarwyddiadau? Tybed oedden nhw’n meddwl y byddai dilyn y cyfarwyddiadau yn gweithio?
4. Sut wyt ti’n meddwl oedd y bobl yn teimlo pan syrthiodd y waliau?
5. Beth wyt ti’n feddwl mae’r hanes hwn yn ei ddangos am Dduw?



# Stori i'w lliwio

# Josua a brwydr Jericho

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Pan wnaeth Josua a phobl Israel ufuddhau i Dduw fe wnaeth Ef roi buddugoliaeth fawr iddyn nhw. Ond dydy Duw ddim angen byddinoedd mawr i ennill brwydrau.




Roedd Josua'n pendroni sut y byddai Duw'n ei helpu i oresgyn dinas gaerog Jericho. Gwelodd ddyn â chleddyf yn sefyll nepell oddi wrtho. "Wyt ti'n ffrind neu'n elyn?" gofynnodd Josua iddo.




"Negesydd Duw ydw i," atebodd y dyn. "A Chadlywydd byddin Duw." Syrthiodd Josua ar ei liniau a dywedodd, "Dyweda wrtha i beth mae Duw am i mi ei wneud?"



Aeth Josua at ei filwyr. "Bydd Duw yn rhoi dinas gaerog Jericho i ni. Ond mae'n rhaid i ni wneud beth mae Ef am i ni ei wneud. Ac os gwelwch chi gortyn coch yn y ffenest, mae'n rhaid i chi achub Rahab."




Tu mewn i ddinas gaerog Jericho roedd Rahab yn gwylio ac yn aros. Roedd Josua wedi addo ei hachub hi a'i theulu pan wnaeth hi guddio'r ysbïwyr.



Gwelodd Rahab bobl Israel yn cerdded oddi amgylch waliau Jericho unwaith pob dydd, am chwe diwrnod.



Yna ar y seithfed dydd wnaethon nhw gerdded o amgylch y ddinas saith gwaith gyda'r offeiriaid yn chwythu utgyrn.



A'r tro olaf fe wnaethon nhw floeddio dros y lle a syrthiodd waliau Jericho yn yfflon i'r llawr.Roedd y ddinas yn eiddo nawr i bobl Israel, nid oherwydd eu bod yn fyddin gref, ond oherwydd nerth a phŵer Duw.


# Gweddi fer



O Dduw,
Diolch i Ti dy fod yn gwybod y ffordd orau i wneud pob dim.
Diolch i Ti dy fod yn gallu ein helpu ni i wneud pethau, hyd yn oed pan mae hynny'n anodd.
Plîs maddau i ni pan rydyn ni'n meddwl ein bod ni'n gwybod yn well na Thi.
Amen.

# Posau

Helpa'r milwyr i gyrraedd Jericho.
Fedri di ddod o hyd i'r adnod i'w dysgu ar y ffordd?






## Pos saith

Fedri di ddarganfod y rhifau sydd ar goll er mwyn cael 7 yn ateb?

$$7 + \square \times \square - 4 \div \square = 7$$

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DD | S | R | A | H | A | B | TH | I | A | W | G |
| I | Y | CH | C | E | O | F | N | S | R | U | W |
| I | R | W | N | E | A | L | B | R | CH | G | E |
| S | TH | Y | L | T | R | A | U | S | O | J | I |
| L | I | TH | O | G | U | DD | E | N | E | L | DD |
| B | O | U | O | D | R | A | E | R | N | E | I |
| O | FF | E | I | R | I | A | I | D | S | W | L |
| P | D | M | DD | U | S | CH | W | L | I | A | E |
| D | U | W | E | S | O | A | N | C | A | T | A |
| E | S | C | O | R | N | T | N | A | R | W | R |
| R | Y | W | L | I | M | I | TH | I | A | S | S |
| E | I | A | B | R | E | N | I | N | D | DD | I |

ARCH
ARGLWYDD
BLAEN
BLOEDDIO
BRENIN
DINAS
DUW
CERDDED
CHWYTHU
CORN
GWAITH
GWEIDDI
ISRAEL
JERICHO
JOSUA
MILWYR
OFN
OFFREIRIAID
POBL
RAHAB
SAITH
SIARAD
SYRTHIO
TAWEL
WALIAU

# Sialensau

Beth am wneud model o'r stori o marshmallows a 'Jelly Babies?'



## Adeiladu tŵr

**Byddi angen:**

1. digonedd o silindrau cardffwrdd (e.e. Y tiwb cardfwrdd tu mern I bapur toiled)
2. tua 8 neu 9 o blatiau papur
3. person bach tegan

**Y sialens:**

Defnyddia'r silindrau cardffwrdd a'r platiau papur i adeiladu'r tŵr uchaf posib heb iddo syrthio. Rho'r person bach tegan i eistedd ar ben y tŵr. Efallai y buasech yn gallu cael cystadleuaeth fel teulu i weld pwy fedr adeiladu'r tŵr uchaf sy'n dal y person bach tegan.



# Gemau

## Gêm dau bolyn, bocs neu bêl



**Byddi di angen:**

- Bocs i gynrychioli Arch y Cyfamod
- Dau bolyn

**Sut i chwarae:**

- Bydd angen dau berson, un bob pen, i ddal y ddau bolyn.
- Gosoda'r bocs i sefyll ar y ddau bolyn.
- Cerddwch o gwmpas gan gario'r bocs o un lle i'r llall e.e. o gwmpas yr ardd neu o un pen i'r ystafell i'r pen arall.

Neu, er mwyn gwneud y gêm yn anos (yn fwy anodd) i blant hŷn, ceisiwch gario pêl ar y polion o un lle i'r llall.

## Gêm gwpanau a balwnau

**Byddi angen:** 12 cwpan bapur, balŵn i bob chwaraewr, bwrdd


**Sut i chwarae:**

- Adeilada "wal" ar bob bwrdd gan ddefnyddio cwpanau papur. Gosoda 5 cwpan mewn rhes ac yna gosod 4 cwpan ar ben ac wedyn 3 - fydd yn gwneud cyfanswm o 12 cwpan.
- Rho falŵn i bob chwaraewr.
- Pan wyt ti'n gweiddi, "Ewch," mae un chwaraewr yn rhedeg at y bwrdd ac yn chwythu balŵn mor fawr neu mor fach ag y mae'n dymuno. Yna mae'r chwaraewr yn gollwng yr aer o'i falŵn ac yn ceisio cnocio "wal" o gwpanau papur.
- Ailadeilada'r wal ar gyfer y chwaraewr nesaf.

Yr enillydd yw'r person sy'n chwythu'r nifer fwyaf o gwpanau gyda'i falŵn.



# Dolenni



Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=cwKmtsDryog&t=25s




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/Ldfjee0sd3U



Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=BAkwWE2UGLo



# Crefft

## Trwmped Swnllyd



**Byddi angen:**
Silindr cardfwrdd hir, (y tiwb cardfwrdd sydd y tu mewn i bapur ffoil neu "Clingfilm"), siswrn, balŵn, tâp insiwleiddio






1.Torra dop y falŵn.



2.Ymestynna waelod y falŵn dros dop y silindr cardfwrdd. Mae angen gadael i wddf y balŵn hongian i lawr.



3.Rho'r falŵn yn sownd yn y silindr cardfwrdd â thâp insiwleiddio.



4.Gorchuddia weddill y silindr cardfwrdd â thâp insiwleiddio gwahanol liwiau gwahanol liwiau.



**Mae dy drwmped yn barod!**

## Sut i ddefnyddio dy Falŵn Swnllyd…


- Dal y trwmped ag un llaw.
- Dalia wddf y falŵn ar ongl sgwâr. (h.y.fel bod y trwmped a'r falŵn mewn siâp L)
- Cadwa'r falŵn ar dynn.
- Chwytha i mewn i'r falŵn – a bydd yn barod am andros o sŵn!



# Gweddi Greadigol

## Brics

Gwna frics allan o bapur. Ysgrifenna arnyn nhw, sefyllfaoedd anodd rwyt ti'n eu hwynebu neu sy'n achosi rhwystredigaeth i ti ar hyn o bryd.
Gwna drwmped a'i chwythu a chwala'r wal. Ymddirieda yn Nuw a gofynna iddo chwalu'r sefyllfaoedd anodd a'r holl bethau sy'n dy wneud di deimlo'n rhwystredig.




## Canu

Mae Duw yn nerthol,
Yn dwyn ni'n saff drwy ddwfn afonydd. (x2)
A gwlad 'r addewid ddaw
drwy nerth ei ddwyfol law.
Mae Duw yn nerthol.

*(Mae) pob peth yn Nuw yn bosibl*
*A dim byd yn amhosibl,*
*Dim byd yn amhosibl;*
*Pob peth yn Nuw yn bosibl.*

Mae Duw 'di addo -
Ei addewidion sy'n dragwyddol. (X2)
Nawr cadwa'r geiriau hyn
Yn dy galon, yn dy ben;
Mae Duw 'di addo.

Mae Duw'n aruthrol
Yn gallu ennill pob un brwydr. (X2)
Awn (ni) rownd y muriau mawr
A GWEIDDI i'w tynnu lawr -
Mae Duw'n aruthrol.



*Greg Leavers Cyf. Dafydd Chilton   Hawlfraint 2019*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/Ldfjee0sd3U

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org